OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 No. 1976

## Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008

## RHAN VI

### ANSAWDD GWASANAETH A DDARPERIR

**Ansawdd y driniaeth**

**14.**—(1) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod gwasanaethau deintyddol a ddarperir i bob claf —

(a) yn diwallu anghenion unigol y claf;

(b) yn adlewyrchu tystiolaeth ymchwil a gyhoeddwyd a chanllawiau a ddyroddwyd gan gyrff proffesiynol ac arbenigol priodol;

(c) yn cael eu darparu (pan fo angen) drwy gyfrwng cyfarpar priodol;

(ch) yn cael eu darparu mewn amgylchedd sy'n hybu lles y claf ac a luniwyd i ddarparu triniaeth yn effeithiol ac yn ddiogel.

(2) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod arferion gwaith yn cymryd i ystyriaeth sicrwydd ansawdd, gwella ansawdd a diogelwch y claf.

(3) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod pob cyfarpar a ddefnyddir wrth ddarparu gwasanaethau deintyddol—

(a) yn addas at y dibenion y caiff ei ddefnyddio; a

(b) yn cael ei gynnal a'i gadw mewn cyflwr da sy'n gweithio.

(4) Os defnyddir dyfeisiau amldro wrth ddarparu gwasanaethau deintyddol rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod gweithdrefnau priodol yn cael eu rhoi ar waith o ran glanhau, diheintio, arolygu, pecynnu, sterileiddio, cludo a storio dyfeisiau o'r fath.

(5) Rhaid i'r gweithdrefnau a weithredir yn unol â pharagraff (4) fod yn y fath fodd sy'n sicrhau bod dyfeisiau amldro yn cael eu trafod yn ddiogel ac yn cael eu diheintio'n effeithiol cyn eu hailddefnyddio.

(6) Rhaid i'r person cofrestredig wneud trefniadau addas i leiafu'r risg o haint a lledu haint.

**Cwynion**

**15.**—(1) Rhaid i'r person cofrestredig lunio a dilyn gweithdrefn ysgrifenedig ("y weithdrefn gwynion") er mwyn ystyried cwynion a wneir i'r person cofrestredig gan glaf neu berson sy'n gweithredu ar ran y claf ("yr achwynydd").

(2) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod cleifion a chynrychiolwyr cleifion yn ymwybodol o fodolaeth y weithdrefn gwynion ac y darperir copi iddynt pan ofynnir amdano neu, os na ddarparwyd copi eisoes, pan ddaw cwyn i law.

(3) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod unrhyw staff a gyflogir gan y person cofrestredig mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau deintyddol yn cael eu hysbysu o'r weithdrefn gwynion, yn cael copi ohoni ac yn cael eu hyfforddi'n briodol ar ei gweithrediad.

(4) Rhaid i'r weithdrefn gwynion gynnwys—

(a) enw, cyfeiriad a rhif ffôn swyddfa briodol yr awdurdod cofrestru; a

(b) y weithdrefn, os oes un, y mae'r person cofrestredig wedi'i hysbysu ohoni gan yr awdurdod cofrestru ar gyfer gwneud cwynion i'r awdurdod hwnnw.

**Ymdrin â Chwynion**

**16.**—(1) Wrth weithredu'r weithdrefn gwynion rhaid i'r person cofrestredig gymryd i ystyriaeth ddymuniadau a theimladau'r claf hyd y gellir eu casglu a pharchu preifatrwydd y claf.

(2) Pan fo cwyn yn cael ei gwneud, rhaid i'r person cofrestredig hysbysu'r achwynydd o'i hawl i gwyno ar unrhyw bryd i'r awdurdod cofrestru.

(3) Rhaid i'r person cofrestredig gydnabod iddo dderbyn y gŵyn o fewn 3 diwrnod ar ôl iddi ddod i law.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraff (5) rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod ymateb ysgrifenedig yn cael ei anfon at yr achwynydd dim hwyrach na 10 diwrnod gwaith ar ôl i'r gŵyn ddod i law.

(5) Ceir estyn y cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (4) i ddyddiad penodedig pan fydd yr achwynydd yn gofyn am hynny neu gyda chytundeb yr achwynydd.

(6) Os caiff y cyfnod ei estyn o dan baragraff (5) heb fod ar gais yr achwynydd rhaid i'r person cofrestredig adolygu hynt ystyried y gwyn mewn ysbeidiau heb fod yn hwy na 10 diwrnod ar wahân ar ôl y cytundeb hwnnw a hysbysu'r achwynydd o'r hynt honno yn ysgrifenedig.

(7) Rhaid i'r ymateb —

(a) crynhoi natur a sylwedd y gŵyn;

(b) disgrifio'r camau a gymerwyd i ystyried y gŵyn a chrynhoi'r casgliadau a wnaed;

(c) esbonio pa gamau, os oes rhai, a gymerir yng ngoleuni'r gŵ yn.

(8) Os gofynnir am hynny gan yr awdurdod cofrestru, rhaid i'r person cofrestredig roi i'r awdurdod cofrestru gopi o'r ymateb a anfonwyd at yr achwynydd.